

2018 Rhif (Cy.)

2018 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

**Gorchymyn Cefnffordd yr A55
(Twnnel Conwy, Bwrdeistref Sirol
Conwy) (Gwaharddiadau a
Chyfyngiadau Traffig Dros Dro)
2018**

**The A55 Trunk Road (Conwy
Tunnel, Conwy County Borough)
(Temporary Traffic Prohibitions
and Restrictions) Order 2018**

Gwnaed 25 Mehefin 2018
Yn dod i rym 26 Mehefin 2018

Made 25 June 2018
Coming into force 26 June 2018

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A55, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a/neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A55 Trunk Road are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited and/or restricted because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by sections 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Twnnel Conwy, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2018 a daw i rym ar 26 Mehefin 2018.

1. The title of this Order is the A55 Trunk Road (Conwy Tunnel, Conwy County Borough) (Temporary Traffic Prohibitions and Restrictions) Order 2018 and it comes into force on 26 June 2018.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

2.—(1) In this Order:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig 1984(2); a

(a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(2); and

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(2) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p.15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p.22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p.20).

(2) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c.15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c.22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c.20), section 50(4) and (5).

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 19:00 o'r gloch ar 26 Mehefin 2018 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A55 Caer i Fangor;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiadau a Chyfyngiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei yrru, ar hyd y gerbyttfordd tua'r dwyrain na'r gerbyttfordd tua'r gorllewin ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

4.—(1) Tra bo cerbydau wedi eu gwahardd gan erthygl 3 rhag symud yn y gerbyttfordd tua'r dwyrain ond, yn unol ag erthygl 13, heb eu gwahardd yn y gerbyttfordd tua'r gorllewin, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd:

(i) mynd yn lôn allanol y gerbyttfordd tua'r gorllewin ar y darn o'r gefnffordd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r dwyrain;

(ii) mynd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r dwyrain drwy unrhyw un o'r bylchau yn llain ganol y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

(2) Tra bo cerbydau wedi eu gwahardd gan erthygl 3 rhag symud yn y gerbyttfordd tua'r gorllewin ond, yn unol ag erthygl 13, heb eu gwahardd yn y gerbyttfordd tua'r dwyrain, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith,

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

(i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or

(ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A55 Chester to Bangor Trunk Road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 19:00 hours on 26 June 2018 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are removed.

(2) Any reference in this Order to a numbered article or Schedule is a reference to the article or Schedule bearing that number in this Order.

Prohibitions and Restrictions

3. No person may, during the works period, drive or cause or permit any vehicle, other than an exempted vehicle, to be driven on either the eastbound or westbound carriageway of the length of the trunk road specified in Schedule 1.

4.—(1) Whilst movement is, by article 3, prohibited in the eastbound carriageway but pursuant to article 13 not prohibited in the westbound carriageway, no person shall, during the works period, drive or cause or permit any vehicle to:

(i) proceed in the offside lane of the westbound carriageway of the length of the trunk road in any direction other than eastwards;

(ii) proceed in any direction other than eastwards through either of the gaps in the central reservation of the length of the trunk road specified in Schedule 2.

(2) Whilst movement is, by article 3, prohibited in the westbound carriageway but pursuant to article 13 not prohibited in the eastbound carriageway, no person shall, during the works period, drive or cause or permit any vehicle to:

yrro unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd:

- (i) mynd yn lôn allanol y gerbyttfordd tua'r dwyrain ar y darn o'r gefnffordd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r gorllewin;
- (ii) mynd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r gorllewin drwy unrhyw un o'r bylchau yn llain ganol y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei yrru ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3.

6. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4.

7. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 5.

8. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd sy'n 3.2 metr neu 3.7 metr o led neu'n fwy fynd ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 6.

9. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal, na pheri i unrhyw feic pedal o'r fath gael ei reidio ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 7.

10. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 7.

11. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

Atal dros dro

12. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 4 a 5 wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 6 a 7 yn weithredol.

Cymhwyso

13.—(1) Ni fydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau yn erthyglau 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10 ac 11 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

- (i) proceed in the offside lane of the eastbound carriageway of the length of the trunk road in any direction other than westwards;
- (ii) proceed in any direction other than westwards through either of the gaps in the central reservation of the length of the trunk road specified in Schedule 2.

5. No person may, during the works period, drive or cause or permit any vehicle, other than an exempted vehicle, to be driven on the lengths of the trunk road specified in Schedule 3.

6. No person may, during the works period, drive or cause or permit any vehicle to proceed at a speed exceeding 40 miles per hour on the lengths of the trunk road specified in Schedule 4.

7. No person may, during the works period, drive or cause or permit any vehicle to proceed at a speed exceeding 50 miles per hour on the length of the trunk road specified in Schedule 5.

8. No person may, during the works period, drive or cause or permit any vehicle with a width of or exceeding 3.2 metres or 3.7 metres to proceed on the lengths of the trunk road specified in Schedule 6.

9. No person may, during the works period, ride or cause to be ridden, any pedal cycle on the length of the trunk road specified in Schedule 7.

10. No pedestrian may, during the works period, proceed on the length of the trunk road specified in Schedule 7.

11. No person may, during the works period, use or permit the use of a vehicle, other than an exempted vehicle, in such a way that it overtakes any other vehicle on the length of the trunk road specified in Schedule 1.

Suspension

12. Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the lengths of the trunk road specified in Schedules 4 and 5 are suspended during such times as the restrictions specified in article 6 and 7 are in operation.

Application

13.—(1) The prohibitions and restrictions in articles 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10 and 11 apply only at such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(2) No speed limits imposed by this Order apply to an exempted vehicle.

Duration of this Order

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

14. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

25 Mehefin 2018

Richard Morgan
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

YR ATODLENNI

ATODLEN 1 Gwrthlif

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 297 o fetrau i'r dwyrain o borth dwyreiniol Twnnel Conwy hyd at bwynt 446 o fetrau i'r gorllewin o borth gorllewinol Twnnel Conwy.

ATODLEN 2 Terfynau'r bylchau yn y llain ganol

Y bwlch yn y llain ganol sydd rhwng pwynt 202 o fetrau i'r dwyrain o borth dwyreiniol Twnnel Conwy a phwynt 297 o fetrau i'r dwyrain o'r porth hwnnw.

Y bwlch yn y llain ganol sydd rhwng pwynt 353 o fetrau i'r gorllewin o borth gorllewinol Twnnel Conwy a phwynt 446 o fetrau i'r gorllewin o'r porth hwnnw.

ATODLEN 3 Gwahardd Cerbydau Dros Dro

Y darn o gerbyttffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 17 (Cyfnewidfa Morfa Conwy) hyd at ganolbwynt Cyffordd 18 (Cyfnewidfa Cyffordd Llandudno), gan gynnwys y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 17 a'r ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 18.

Y darn o gerbyttffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 18 (Cyfnewidfa Cyffordd Llandudno) hyd at ganolbwynt trosbont Cyffordd 17 (Cyfnewidfa Morfa Conwy), gan gynnwys y darn

14. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated the

25 June 2018

Richard Morgan
Head of Planning, Asset Management and Standards
Welsh Government

SCHEDULES

SCHEDULE 1 Contraflow

The length of the trunk road that extends from a point 297 metres east of the eastern portal of the Conwy Tunnel to a point 446 metres west of the western portal of the Conwy Tunnel.

SCHEDULE 2 Limits of the central reserve gaps

The gap in the central reservation situated between a point 202 metres east of the eastern portal of the Conwy Tunnel and a point 297 metres east of that portal.

The gap in the central reservation situated between a point 353 metres west of the western portal of the Conwy Tunnel and a point 446 metres west of that portal.

SCHEDULE 3 Temporary Prohibition of Vehicles

The length of the eastbound carriageway of the trunk road that extends from the nosing of the eastbound exit slip road at Junction 17 (Conwy Morfa Interchange) to the centre-point of Junction 18 (Llandudno Junction Interchange), including the entire length of the eastbound entry slip road at Junction 17 and eastbound exit slip road at Junction 18.

The length of the westbound carriageway of the trunk road that extends from the nosing of the westbound exit slip road at Junction 18 (Llandudno Junction Interchange) to the centre-point of the Junction 17 (Conwy Morfa Interchange) over-bridge, including

cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 18 a'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 17.

ATODLEN 4 Terfyn Cyflymder o 40 mya Dros Dro

Y darn o gerbyttffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt trosbont Traphont y Red Gables hyd at bwynt 191 o fetrau i'r gorllewin o borth gorllewinol twnnel pentir Penmaen-bach tua'r dwyrain.

Y darn o gerbyttffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt trosbont Brompton Avenue hyd at bwynt 787 o fetrau i'r dwyrain o borth dwyreiniol twnnel pentir Penmaen-bach tua'r dwyrain.

Y darn o gerbyttffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 787 o fetrau i'r dwyrain o borth dwyreiniol twnnel pentir Penmaen-bach tua'r dwyrain hyd at ganolbwynt trosbont Brompton Avenue.

Y darnau cyfan o'r ffordd ymadael ac ymuno tua'r dwyrain a thua'r gorllewin wrth Gyffordd 17 (Cyfnewidfa Morfa Conwy), Cyffordd 18 (Cyfnewidfa Cyffordd Llandudno) a Chyffordd 19 (Cyfnewidfa Llansanffraid Glan Conwy).

ATODLEN 5 Terfyn Cyflymder o 50 mya Dros Dro

Y darn o gerbyttffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt trosbont Brompton Avenue hyd at drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 18 (Cyfnewidfa Cyffordd Llandudno).

ATODLEN 6 Cyfyngu ar Led Cerbydau

Y darn o gerbyttffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 30 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 16 (Cylchfan y Puffin) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 19 (Cyfnewidfa Llansanffraid Glan Conwy), gan gynnwys y ffordd ymuno wrth Gyffordd 17 (Cyfnewidfa Morfa Conwy) a Chyffordd 18 (Cyfnewidfa Cyffordd Llandudno).

Y darn o gerbyttffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 19 (Cyfnewidfa Llansanffraid Glan Conwy) hyd at bwynt 30 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 16 (Cylchfan y Puffin), gan gynnwys y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 19 (Cyfnewidfa Llansanffraid Glan Conwy), Cyffordd 18 (Cyfnewidfa Cyffordd Llandudno) a

the entire length of the westbound entry slip road at Junction 18 and westbound exit slip road at Junction 17.

SCHEDULE 4 Temporary 40 mph Speed Limit

The length of the eastbound carriageway of the trunk road that extends from the centre-point of Red Gables Viaduct over-bridge to a point 191 metres west of the western portal of Penmaenbach eastbound headland tunnel.

The length of the westbound carriageway of the trunk road that extends from the centre-point of Brompton Avenue over-bridge to a point 787 meters east of the eastern portal of the Penmaenbach eastbound headland tunnel.

The length of the eastbound carriageway of the trunk road that extends from point 787 metres east of the eastern portal of the Penmaenbach eastbound headland tunnel to the centre-point of Brompton Avenue over-bridge.

The entire lengths of the eastbound and westbound exit and entry slip roads at Junction 17 (Conwy Morfa Interchange), Junction 18 (Llandudno Junction Interchange) and Junction 19 (Glan Conwy Interchange).

SCHEDULE 5 Temporary 50 mph Speed Limit

The length of the westbound carriageway of the trunk road that extends from the centre-point of Brompton Avenue over-bridge to the nosing of the westbound exit slip road at Junction 18 (Llandudno Junction Interchange).

SCHEDULE 6 Vehicle Width Restriction

The length of the eastbound carriageway of the trunk road that extends from a point 30 metres east of the centre-point of Junction 16 (Puffin Roundabout) to the nosing of the eastbound entry slip road at Junction 19 (Black Cat Interchange), including the entry slip roads at Junction 17 (Conwy Morfa Interchange) and Junction 18 (Llandudno Junction Interchange).

The length of the westbound carriageway of the trunk road that extends from the nosing of the westbound exit slip road at Junction 19 (Black Cat Interchange) to a point 30 metres east of the centre-point of Junction 16 (Puffin Roundabout), including the westbound entry slip roads at Junction 19 (Black Cat Interchange), Junction 18 (Llandudno Junction Interchange) and Junction 17 (Conwy Morfa

Chyffordd 17 (Cyfnewidfa Morfa Conwy).

ATODLEN 7

Gwahardd Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro

Y darn o'r llwybr beiciau/llwybr troed sy'n ymestyn o bwynt 787 o fetrau i'r dwyrain o borth dwyreiniol Twannel Pentir Penmaen-bach tua'r dwyrain, gan gynnwys y darn o'r llwybr beiciau/llwybr troed sy'n gyfagos i'r ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 17, hyd at ei bentan â'r A547 ar ddiwedd y ffordd ymadael honno.

Interchange).

SCHEDULE 7

Temporary Prohibition of Cyclists & Pedestrians

The length of the cycleway/footpath that extends from a point 787 metres east of the eastern portal of the Penmaenbach Eastbound Headland Tunnel, including the length of cycleway/footpath adjacent to the Junction 17 eastbound exit slip road, to its abutment with the A547 at the end of that slip road.

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A55
(TWNNEL CONWY, BWRDEISTREF SIROL
CONWY) (GWAHARDDIADAU A
CHYFYNGIADAU TRAFFIG DROS DRO) 2018**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A55, neu gerllaw iddi, wrth Dwnnel Conwy, Conwy.

Effaith y Gorchymyn yw gwneud y canlynol dros dro:

- i. Cau, am yn ail â'i gilydd, gerbyttfyrdd tua'r dwyrain a'r gorllewin yr A55 a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Y llwybr arall ar gyfer traffig y bydd cau'r gerbyttfyrdd tua'r dwyrain yn effeithio arno fydd ar hyd y gwrthlif yn lôn allanol y gerbyttfyrdd tua'r gorllewin: i'r gwrthwyneb ar gyfer cau'r gerbyttfyrdd tua'r gorllewin.
- ii. Rheoli symudiad y traffig drwy fylchau yn llain ganol yr A55, bob ochr i'r Twnnel (a gaiff ei ailagor yn ystod y gwaith), fel a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn tra bo'r gwrthlif yn weithredol.
- iii. Gwahardd pob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith, rhag cael ei yrru ar y darnau o'r A55 a bennir yn Atodlen 3. Bydd arwyddion traffig a osodir ymlaen llaw yn dangos y cyfnodau pan fydd y ffordd ar gau, a disgwylir mai am gyfnodau byr y byddant yn para, a hynny yn ôl yr angen. Nid oes angen unrhyw lwybrau dargyfeiriol.
- iv. Gosod terfyn cyflymder o 40 mya ar y darnau o'r A55 a ddisgrifir yn Atodlen 4.
- v. Gosod terfyn cyflymder o 50 mya ar y darn o'r A55 a ddisgrifir yn Atodlen 5.
- vi. Gwahardd cerbydau sy'n 3.2 metr neu 3.7 metr o led neu'n fwy rhag mynd ar hyd y darnau o'r A55 a ddisgrifir yn Atodlen 6. Mae'r Atodlen honno hefyd yn disgrifio'r llwybr arall. Un cyfyngiad lled yn unig fydd ar waith ar unrhyw adeg.
- vii. Gwahardd beicwyr a cherddwyr rhag mynd ar y darn o'r llwybr beiciau/llwybr troed sy'n gyfagos i'r A55 a ddisgrifir yn Atodlen 7. Mae'r Atodlen honno hefyd yn disgrifio'r llwybr arall.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn dod i rym am 19:00 o'r gloch ar 26 Mehefin 2018 ac y byddant yn

**THE A55 TRUNK ROAD (CONWY TUNNEL,
CONWY COUNTY BOROUGH) (TEMPORARY
TRAFFIC PROHIBITIONS AND
RESTRICTIONS) ORDER 2018**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A55 trunk road at the Conwy Tunnel, Conwy.

The effect of the Order is to temporarily:

- i. Close, alternately, the eastbound and westbound carriageways of the A55 described in Schedule 1 to this Notice. The alternative route for traffic affected by an eastbound closure is via contraflow in the offside lane of the westbound carriageway: vice versa for a westbound closure.
- ii. Control the movement of traffic through gaps in the central reservation of the A55, either side of the Tunnel (which will be re-opened during the works), as described in Schedule 2 to this Notice whilst contraflow is in operation.
- iii. Prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services and for the works, from being driven on the lengths of the A55 specified in Schedule 3. Any such closures will be indicated by advance traffic signs and are only expected to be for short periods, as required. No diversionary routes are necessary.
- iv. Impose a 40 mph speed limit on the lengths of the A55 described in Schedule 4.
- v. Impose a 50 mph speed limit on the length of the A55 described in Schedule 5.
- vi. Prohibit vehicles with a width of or exceeding 3.2 metres or 3.7 metres from proceeding on the lengths of the A55 described in Schedule 6. The alternative route is also described in that Schedule. Only one width restriction will be in place at a time.
- vii. Prohibit cyclists and pedestrians from proceeding on the length of the cycleway/footpath adjacent to the A55 described in Schedule 7. The alternative route is also described in that Schedule.

The prohibitions and restrictions, which will be signed accordingly, are expected to come into force at 19:00 hours on 26 June 2018 and operate intermittently

weithredol yn ysbeidiol dros nos hyd 07:00 o'r gloch ar 29 Tachwedd 2018 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru (Detholer: Deddfwriaeth/Is-ddeddfwriaeth/Offerynnau Statudol Lleol/Gorchymynion Traffig Dros Dro/2018).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

YR ATODLENNI

ATODLEN 1 Gwrthlif

Y darn o'r A55 sy'n ymestyn o bwynt 297 o fetrau i'r dwyrain o borth dwyreiniol Twannel Conwy hyd at bwynt 446 o fetrau i'r gorllewin o borth gorllewinol Twannel Conwy.

ATODLEN 2 Terfynau'r bylchau yn y llain ganol

Y bwllch yn y llain ganol sydd rhwng pwynt 202 o fetrau i'r dwyrain o borth dwyreiniol Twannel Conwy a phwynt 297 o fetrau i'r dwyrain o'r porth hwnnw.

Y bwllch yn y llain ganol sydd rhwng pwynt 353 o fetrau i'r gorllewin o borth gorllewinol Twannel Conwy a phwynt 446 o fetrau i'r gorllewin o'r porth hwnnw.

ATODLEN 3 Gwahardd Cerbydau Dros Dro

Y darn o gerbyttfordd tua'r gorllewin yr A55 sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 18 (Cyfnewidfa Cyffordd Llandudno) hyd at ganolbwynt trosbont Cyffordd 17 (Cyfnewidfa Morfa Conwy), gan gynnwys y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 18 a'r ffordd

overnight until 07:00 hours on 29 November 2018 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.gov.wales (Select: Legislation/Subordinate Legislation/Local Statutory Instruments/Temporary Traffic Orders/2018).

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

M D BURNELL
Transport
Welsh Government

SCHEDULES

SCHEDULE 1 Contraflow

The length of the A55 that extends from a point 297 metres east of the eastern portal of the Conwy Tunnel to a point 446 metres west of the western portal of the Conwy Tunnel.

SCHEDULE 2 Limits of the central reserve gaps

The gap in the central reservation situated between a point 202 metres east of the eastern portal of the Conwy Tunnel and a point 297 metres east of that portal.

The gap in the central reservation situated between a point 353 metres west of the western portal of the Conwy Tunnel and a point 446 metres west of that portal.

SCHEDULE 3 Temporary Prohibition of Vehicles

The length of the A55 westbound carriageway that extends from the nosing of the westbound exit slip road at Junction 18 (Llandudno Junction Interchange) to the centre-point of the Junction 17 (Conwy Morfa Interchange) over-bridge, including the entire length of the westbound entry slip road at Junction 18 and

ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 17.

Y darn o gerbyttfordd tua'r dwyrain yr A55 sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 17 hyd at ganolbwynt Cyffordd 18, gan gynnwys y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 17 a'r ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 18.

ATODLEN 4 Terfyn Cyflymder o 40 mya Dros Dro

Y darn o gerbyttfordd tua'r dwyrain yr A55 sy'n ymestyn o ganolbwynt trosbont Traphont y Red Gables hyd at bwynt 191 o fetrau i'r gorllewin o borth gorllewinol twnnel pentir Penmaen-bach tua'r dwyrain.

Y darn o gerbyttfordd tua'r gorllewin yr A55 sy'n ymestyn o ganolbwynt trosbont Brompton Avenue hyd at bwynt 787 o fetrau i'r dwyrain o borth dwyreiniol twnnel pentir Penmaen-bach tua'r dwyrain, gan gynnwys y bylchau yn y llain ganol yn Atodlen 2.

Y darn o gerbyttfordd tua'r dwyrain yr A55 sy'n ymestyn o bwynt 787 o fetrau i'r dwyrain o borth dwyreiniol twnnel pentir Penmaen-bach tua'r dwyrain hyd at ganolbwynt trosbont Brompton Avenue.

Y darnau cyfan o'r ffyrdd ymuno ac ymadael tua'r dwyrain a thua'r gorllewin wrth Gyffordd 17, Cyffordd 18 a Chyffordd 19 (Cyfnewidfa Llansanffraid Glan Conwy).

ATODLEN 5 Terfyn Cyflymder o 50 Mya Dros Dro

Y darn o gerbyttfordd tua'r gorllewin yr A55 sy'n ymestyn o ganolbwynt trosbont Brompton Avenue hyd at drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 18 (Cyfnewidfa Cyffordd Llandudno).

ATODLEN 6 Gwahardd Cerbydau Llydan Dros Dro a Llwybr Arall

Y darn o gerbyttfordd tua'r dwyrain yr A55 sy'n ymestyn o bwynt 30 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 16 hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 19 (Cyfnewidfa Llansanffraid Glan Conwy), gan gynnwys y ffyrdd ymuno wrth Gyffordd 17 a Chyffordd 18.

Y darn o gerbyttfordd tua'r gorllewin yr A55 sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 19 hyd at bwynt 30 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 16 (Cylchfan y Puffin), gan gynnwys y ffyrdd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 19, Cyffordd 18 a Chyffordd 17.

westbound exit slip road at Junction 17.

The length of the A55 eastbound carriageway that extends from the nosing of the eastbound exit slip road at Junction 17 to the centre-point of Junction 18, including the entire length of the eastbound entry slip road at Junction 17 and eastbound exit slip road at Junction 18.

SCHEDULE 4 Temporary 40 mph Speed Limit

The length of the A55 eastbound carriageway that extends from the centre-point of Red Gables Viaduct over-bridge to a point 191 metres west of the western portal of Penmaenbach eastbound headland tunnel.

The length of the A55 westbound carriageway that extends from the centre-point of Brompton Avenue over-bridge to a point 787 meters east of the eastern portal of the Penmaenbach eastbound headland tunnel, including the central reserve gaps in Schedule 2.

The length of the A55 eastbound carriageway that extends from a point 787 metres east of the eastern portal of the Penmaenbach eastbound headland tunnel to the centre-point of Brompton Avenue over-bridge.

The entire lengths of the eastbound and westbound exit and entry slip roads at Junction 17, Junction 18 and Junction 19 (Glan Conwy Interchange).

SCHEDULE 5 Temporary 50 mph Speed Limit

The length of the westbound carriageway of the A55 that extends from the centre-point of Brompton Avenue over-bridge to the nosing of the westbound exit slip road at Junction 18 (Llandudno Junction Interchange).

SCHEDULE 6 Temporary Prohibition of Wide Vehicles & Alternative Route

The length of the A55 eastbound carriageway that extends from a point 30 metres east of the centre-point of Junction 16 to the nosing of the eastbound entry slip road at Junction 19 (Black Cat Interchange), including the entry slip roads at Junction 17 and Junction 18.

The length of the A55 westbound carriageway that extends from the nosing of the westbound exit slip road at Junction 19 to a point 30 metres east of the centre-point of Junction 16 (Puffin Roundabout), including the westbound entry slip roads at Junction 19, Junction 18 and Junction 17.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gorllewin fydd ymadael â'r A55 wrth Gyffordd 19, dilyn yr A470 tua'r de i Fetws-y-coed a'r A5 tua'r gorllewin i ailymuno â'r A55 wrth Gyffordd 11 (Llandygái): i'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r dwyrain.

ATODLEN 7
Gwahardd Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro a
Llwybr Arall

Y darn o'r llwybr beiciau/llwybr troed sy'n ymestyn o bwynt 787 o fetrau i'r dwyrain o borth dwyreiniol Twnnel Pentir Penmaen-bach tua'r dwyrain, gan gynnwys y darn o'r llwybr beiciau/llwybr troed sy'n gyfagos i'r ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 17, hyd at ei bentan â'r A547 ar ddiwedd y ffordd ymadael honno.

Y llwybr arall ar gyfer beicwyr a cherddwyr sy'n teithio tua'r dwyrain fydd mynd ar y bont feiciau dros reilffordd Caer i Gaergybi, Beach Road a'r A547 Meirion Drive: i'r gwrthwyneb i feicwyr/cherddwyr sy'n mynd tua'r gorllewin.

The alternative route for westbound vehicles is to leave the A55 at Junction 19, follow the southbound A470 to Betws-y-Coed and the westbound A5 to re-join the A55 at Junction 11 (Llandygái): vice versa for eastbound vehicles.

SCHEDULE 7
Temporary Prohibition of Cyclists & Pedestrians
& Alternative Route

The length of the cycleway/footpath that extends from a point 787 metres east of the eastern portal of the Penmaenbach Eastbound Headland Tunnel, including the length of cycleway/footpath adjacent to the Junction 17 eastbound exit slip road, to its abutment with the A547 at the end of the said slip road.

The alternative route for eastbound cyclists and pedestrians is via the cycle bridge over the Chester to Holyhead railway line, Beach Road and A547 Meirion Drive: vice versa for westbound cyclists/pedestrians.